Myfyrdod Mis Mai 2011

"*Mor weddaidd yw traed y rhai sy'n cyhoeddi newyddion da.*"
(Rhufeiniaid 10:15)

Cwestiwn personol! A oes gennych chwi draed prydferth? Yr Apostol Paul sydd am ofyn. Gan y Proffwyd Eseia y cafodd ef y cwestiwn (Eseia 52:7). Da i ninnau ei ystyried am funud. *"Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed y negesydd sy'n cyhoeddi heddwch ..."* - meddwl 'roedd y Proffwyd am negesydd yn rhedeg o faes y gad i gyhoeddi bod y frwydr wedi ei hennill. Traed yn rhedeg i gyhoeddi newyddion da - traed prydferth ydynt. I Paul, y Newyddion Da oedd yr Efengyl. Efengyl sydd yn mynegi cariad Duw, pardwn am fai a gobaith tragwyddol i bobl.

Sut siâp oedd ar draed Paul wedi ei holl deithiau blin, a'i ludded? Dyma ddywed: *"Pumwaith y cefais ar law'r Iddewon y deugain llach ond un. Tair gwaith fe'm curwyd â ffyn, unwaith fe'm llabyddiwyd, tair gwaith bûm mewn llongddrylliad, ac am ddiwrnod a noson bûm yn y môr. Bûm ar deithiau yn fynych, mewn peryglon gan afonydd, peryglon ar law lladron, peryglon ar law fy nghenedl fy hun ac ar law'r Cenhedloedd, peryglon yn y dref ac yn yr anialwch ac ar y môr, a pheryglon ymhlith gau gredinwyr. Bûm mewn llafur a lludded, yn fynych heb gwsg, mewn newyn a syched, yn fynych heb luniaeth, yn oer ac yn noeth. Ar wahân i bob peth arall, y mae gofal dros yr holl eglwysi yn gwasgu arnaf ddydd ar ôl dydd."* (2 Corinthiaid 11: 24-28)

A gysegrodd neb ei draed erioed fel y gwnaeth ef? Traed pwy a gyhoeddodd yr Efengyl yng Nghymru? Traed pwy a gerddodd dros y mynyddoedd a thrwy'r dyffrynnoedd yn pregethu'r anchwiliadwy olud? Fendigedig draed. Traed prydferth oeddynt am mai Traed Crist ei hun oeddynt; fe'u benthycwyd iddo Ef. Pwy sydd yn cael defnydd o'n traed ni? Angen mawr yr Eglwys heddiw yw mwy o Gristnogion sydd yn barod i gysegru eu traed i'r Arglwydd Iesu Grist ... fel y gallo ymweld â'r claf, sirioli'r digalon, gwasgaru cymwynasau a charedigrwydd, a dweud wrth bobl heb obaith ar ddiffodd fod cariad Duw yn anorchfygol!

A oes gennych chwi draed prydferth? Iesu sydd yn gofyn!

Wythnos Cymorth Cristnogol: 15 – 21 Mai 2011

Eleni canolbwyntio ar fywydau ffermwyr coffi sy'n derbyn cymorth gan Soppexcca, partner Cymorth Cristnogol, yn ucheldiroedd Nicaragua a wna Wythnos Cymorth Cristnogol.

Gweddïwn:

Arglwydd Iesu, carwn dy ddarlun o fywyd yn ei gyflawnder, tyfiant a digonedd, cynaeafau da a boliau llawn; gobaith, cyfiawnder a chymunedau ffyniannus. Felly fe ddathlwn waith Soppexcca, a gweddïwn dros bobl Nicaragua, sydd wedi gosod eu hunain yng nghanol y darlun. **Trwy ein gweddïo, ein gweithredu a'n rhoi boed i ni fod yn rhan ohono.** Ar draws y byd, mae miliynau o bobl yn dy ddarlun di. Llawer ohonynt yn bartneriaid Cymorth Cristnogol ac fe weddïwn drostynt, a dathlwn, eu hurddas, dewrder a'u ffydd ar waith i greu newid. **Trwy ein gweddïau, ein gweithredu a'n rhoi boed i ni fod yn rhan ohono**. Ond i lawer, gwyddom fod y darlun yn dywyll ac o dan gysgod oherwydd cynaeafau a fethodd, afonydd sych, daeargrynfeydd a llifogydd. Gweddïwn drostynt, a gweddïwn hefyd y bydd llywodraethau, llunwyr polisïau a'r rhai sy'n dal grym o fewn y sustemau ariannol yn cael eu symud i weld darlun ehangach o fywyd yn ei holl gyflawnder. **Trwy ein gweddïo, ein gweithredu a'n rhoi boed i ni fod yn rhan ohono.** Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, wrth i ni weddïo dros drefnyddion, casglyddion a chefnogwyr, boed i ni bob amser gadw'r darlun ehangach o flaen ein llygaid ein hunain. **A thrwy ein gweddïo, ein gweithredu a'n rhoi boed i ni fod yn rhan ohono.**

Gweddi o Nicaragua: Boed iddi ddod yn fuan i'r newynog, i'r wylofus, i'r rhai sy'n sychedu am dy gyfiawnder, i'r rhai fu'n disgwyl am ganrifoedd am fywyd gwirioneddol dynol. Rho i ni'r amynedd i baratoi'r ffordd y daw dy deyrnas atom. Rho i ni obaith, fel na fyddwn yn blino ei chyhoeddi a gweithio drosti. Rho i ni weledigaeth eglur fel ein bod, yn yr awr hon o'n hanes, yn gweld y gorwel a gwybod y ffordd y daw dy deyrnas atom. ***Amen.***

(allan o Becyn Addoli Wythnos Cymorth Cristnogol 2011)